


---

# Gweithdrefn Herio ac Apelio: Hysbysiadau Cydymffurfio



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner



---

# Cynnwys

2

---

1	Rhagair	3
2	Cyflwyniad: hawl i herio ac apelio	4
3	Gwneud cais am ddyfarniad	5
4	Prosesu cais am ddyfarniad	6
5	Dyfarniad	8
6	Apelio i Dribiwnlys y Gymraeg	9
7	Gohirio gosod dyletswydd dyfodol	10
8	Cysylltu â ni	11
9	Ffurflenni cais am ddyfarniad	12

---

---

# 1

## Rhagair

3

1  
Y diwrnod  
oddi ar bryd  
y mae'n  
ofynnol  
i berson  
gydymffurfio  
â'r safon,  
neu â'r  
safon mewn  
modd  
penodol  
(Adran  
46(4) y  
Mesur)

- 1.1 Prif gynulleidfa darged y weithdrefn hon yw'r personau hynny ("personau perthnasol") sydd eisoes wedi derbyn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio ag un neu fwy o safonau'n ymwneud â'r Gymraeg.
- 1.2 Mae hysbysiadau cydymffurfio a roddir i bersonau perthnasol gan Gomisiynydd y Gymraeg, o dan Fesur y Gymraeg, yn manylu ar y safonau penodol y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â hwy ac ym mha fodd y mae hynny'n ofynnol, ynghyd â'r diwrnodau gosod<sup>1</sup> ar gyfer y safonau hynny. Bydd copïau o'r hysbysiadau cydymffurfio hynny sydd mewn grym ar wefan y Comisiynydd.
- 1.3 Mae gan bersonau perthnasol hawl i herio'r dyletswyddau a gynhwysir yn yr hysbysiad cydymffurfio drwy wneud cais i'r Comisiynydd dan Adran 54 neu Adran 55 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae hawl ganddynt hefyd i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg ("y Tribiwnlys") yn erbyn dyfarniad y Comisiynydd.
- 1.4 Mae'r weithdrefn hon yn egluro hawl y personau hynny a nodir uchod i herio'r dyletswyddau a gynhwysir yn yr hysbysiad cydymffurfio ac yn cynnig eglurder ynghylch y gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn cyflwyno her o'r fath. Rhoddir gwybodaeth ynddo hefyd ynghylch sut bydd y Comisiynydd yn ymdrin â heriau ynghyd â manylion cyswllt Tribiwnlys y Gymraeg mewn perthynas ag apelau.
- 1.5 Noder mai rhai agweddau o Bennod 7, Rhan 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn unig y mae'r weithdrefn hon yn ymdrin â hwy. Mae Polisi Gorfodi Comisiynydd y Gymraeg yn ymdrin ag apeliadau i Dribiwnlys y Gymraeg o dan Rhan 5 y Mesur mewn perthynas â methiannau i gydymffurfio â gofynion perthnasol.
- 1.6 Mae copïau o'r polisiau uchod ar gael i'w harchwilio yn swyddfa'r Comisiynydd ac mae copi electroneg ohonynt ar gael ar ei wefan.

---

# 2

## Cyflwyniad: hawl i herio ac apelio

- 2.1 Mae Pennod 7, Rhan 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu mecanwaith er mwyn galluogi i bersonau perthnasol herio'r dyletswyddau sydd wedi'u nodi yn yr hysbysiad cydymffurfio, a hynny cyn neu ar ôl i'r dyddiad gosod ddod i rym.
- 2.2 Golyga hyn bod modd i berson perthnasol, sydd wedi derbyn hysbysiad cydymffurfio yn ei wneud yn ofynnol iddo i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau, wneud cais i Gomisiynydd y Gymraeg yn gofyn iddo ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau, neu gydymffurfio ag un neu fwy o safonau mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio. Gall person perthnasol wneud hynny boed y safonau yn rhai y byddant yn ofynnol i gydymffurfio â hwy ar ddyddiad penodol yn y dyfodol neu'n rhai y maent eisoes yn ofynnol i gydymffurfio â hwy.
- 2.3 Adran 54 y Mesur sydd yn rhoi'r hawl i bersonau perthnasol herio dyletswyddau dyfodol, safonau fydd yn ofynnol i bersonau perthnasol gydymffurfio â hwy ar ddyddiad penodol yn y dyfodol. Adran 55 y Mesur sydd yn rhoi'r hawl i bersonau perthnasol herio dyletswyddau presennol, safonau y mae eisoes yn ofynnol i bersonau perthnasol gydymffurfio â hwy. Dylid cyfeirio at destun llawn y Mesur am yr holl fanylion.
- 2.4 Daw hawl person perthnasol i apelio i Dribiwnlys y Gymraeg o dan adran 58 y Mesur i rym unwaith y bydd y Comisiynydd wedi dyfarnu **nad** yw'r gofyniad i'r person perthnasol gydymffurfio ag un neu fwy o safonau, neu gydymffurfio ag un neu fwy o safonau mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur. Wedi i'r hawl honno ddod i rym, gall y person perthnasol apelio i'r Tribiwnlys yn gofyn i'r Tribiwnlys ddyfarnu ar yr un cwestiwn.
- 2.5 Mae amlinelliad o'r hyn a fydd yn digwydd os bydd y Comisiynydd yn dyfarnu **bod** y gofyniad i gydymffurfio yn afresymol neu'n anghymesur wedi'i gynnwys o dan yr adran '**Dyfarniad**'.
- 2.6 Yn dilyn dyfarniad gan y Tribiwnlys, gall y Comisiynydd neu'r person perthnasol, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys yn unol ag adran 59 y Mesur ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o'r dyfarniad hwnnw.
-

---

# 3

## Gwneud cais am ddyfarniad

- 3.1 Mae Mesur y Gymraeg yn nodi bod rhaid i bob cais am ddyfarniad i'r Comisiynydd fod yn ysgrifenedig a bod rhaid iddo hefyd nodi'r rhesymau pam y mae'r person perthnasol o'r farn bod y gofyniad i gydymffurfio â'r safon, neu i gydymffurfio â'r safon yn y modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur.
- 3.2 Er mwyn hwyluso'r drefn, mae'r Comisiynydd wedi llunio dwy **ffurflen gais** ar wahân i'w llenwi gan bersonau perthnasol sydd am herio eu dyletswyddau dan hysbysiad cydymffurfio drwy gyflwyno cais i'r Comisiynydd am ddyfarniad. Mae un ffurflen ar gyfer herio dyletswydd dyfodol a ffurflen arall ar gyfer herio dyletswydd presennol. Mae copïau caled o'r weithdrefn â'r ffurflenni ar gael yn swyddfa'r Comisiynydd a chopïau electroneg ar gael ar wefan y Comisiynydd. Noder mai trwy gyfrwng y ffurflenni hyn yn unig y bydd y Comisiynydd yn derbyn ceisiadau o'r fath.
- 3.3 Pwysleisir yn y Mesur mai **mater i'r person perthnasol yw dangos** bod gofyniad i gydymffurfio â'r safon, neu gydymffurfio â'r safon mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur. Nid oes rhaid i'r Comisiynydd brofi cywirdeb ei benderfyniad.
-

# 4

## Prosesu cais am ddyfarniad

6

2  
Gall hyn fod yn ddyddiad y daw dyfarniad y Comisiynydd / Tribiwnlys i rym yn sgil her blaenorol

- 4.1 Bydd y Comisiynydd yn ceisio cydnabod derbyn pob cais am ddyfarniad o fewn 5 diwrnod gwaith o'i dderbyn gan egluro wrth y person perthnasol mai cam cyntaf y broses fydd ystyried a yw'r cais yn un dilys ai peidio.
- Cam 1: Dilysu'r cais**
- 4.2 Bydd y Comisiynydd yn dilysu'r cais trwy wirio ei fod yn cyrraedd y gofynion angenrheidiol yn unol â chymalau 3.1 a 3.2 uchod. Yn ystod y cam hwn hefyd bydd y Comisiynydd, mewn perthynas â chais sy'n herio dyletswydd presennol, yn ystyried a oes rheswm dros wrthod derbyn y cais.
- 4.3 Dan Adran 55(3) y Mesur, gall y Comisiynydd benderfynu gwrthod derbyn cais sy'n herio dyletswydd presennol am ddau reswm:
- os yw wedi'i fodloni nad oes unrhyw newid sylweddol wedi bod yn amgylchiadau'r person perthnasol oddi ar y diwrnod y'i gwnaed yn ofynnol am y tro cyntaf i'r person hwnnw gydymffurfio â'r safon, neu i gydymffurfio â'r safon yn y modd hwnnw<sup>2</sup>; neu
  - os yw wedi'i fodloni nad oes unrhyw newid sylweddol wedi bod yn amgylchiadau'r person perthnasol oddi ar y diwrnod y dyfarnwyd yr un cwestiwn ar gais blaenorol (os yw hynny yn berthnasol).
- 4.4 Os yw'r Comisiynydd yn ystyried y gall benderfynu gwrthod y cais dan Adran 55(3), cyn penderfynu a yw am wneud hynny, bydd y Comisiynydd yn hysbysu'r person perthnasol ei fod yn ystyried hynny. Bydd y rhesymau pam ei fod yn ystyried hynny yn cael eu nodi, ac fe wahoddir sylwadau gan berson perthnasol o fewn 20 diwrnod gwaith pellach. Wrth benderfynu a yw am wrthod y cais dan Adran 55(3), bydd y Comisiynydd yn cymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau y bydd wedi eu derbyn o fewn yr amser hwnnw.
- 4.5 Os canfyddir bod y cais yn annilys neu os yw'r Comisiynydd, yn achos herio dyletswydd presennol, yn penderfynu gwrthod derbyn y cais dan Adran 55(3), bydd y Comisiynydd yn ysgrifennu at y person perthnasol yn egluro hynny.
- 4.6 Os canfyddir bod y cais yn un dilys ac os nad yw'r Comisiynydd, yn achos herio dyletswydd presennol, yn penderfynu gwrthod derbyn y cais, bydd y cais yn symud i ail gam y broses.
- 4.7 Anelir at gwblhau'r cam hwn o fewn 10 diwrnod gwaith pellach.
- Cam 2: Aseu'r cais**
- 4.8 Unwaith y penderfynir bod cais am ddyfarniad yn un dilys, bydd y Comisiynydd yn delio â'r cais. Soniwyd eisoes mai ar y person perthnasol y mae'r baich i brofi bod gofyniad i gydymffurfio â safon, neu gydymffurfio â safon mewn modd penodol yn afresymol neu'n anghymesur. Bydd y Comisiynydd yn ystyried

---

tystiolaeth y person perthnasol ac yn penderfynu a yw'r dystiolaeth hynny'n ddilys ai peidio. Bydd yr amser y bydd y cam hwn yn ei gymryd i'w gwblhau yn amrywio o gais i gais, yn ddibynnol ar ffeithiau unigol pob achos. Er hynny, anelir at gwblhau'r achos cyn gynted â sy'n rhesymol bosib, a hynny o fewn 30 diwrnod gwaith ar yr hwyraf.

### **Cam 3: Ymgynghori a'r arolwg cyn dyfarnu**

- 4.9 Dan Adran 57(4) y Mesur, mae pŵer gan y Comisiynydd i ymgynghori ag unrhyw berson arall a chanddo fuddiant yng nghanlyniad y cais ym marn y Comisiynydd. Os yw'r Comisiynydd (neu'r Swyddog ar ei ran) yn ymgynghori â pherson ac eithrio'r person perthnasol rhaid i'r Comisiynydd ddatgelu i'r person perthnasol pwy yw'r person arall hwnnw a beth oedd ymateb y person arall hwnnw i'r ymgynghoriad, gan wahodd y sylwadau'r person perthnasol o fewn 20 diwrnod gwaith pellach.
- 4.10 Bydd y Comisiynydd yn cynnwys y canlynol yn yr arolwg cyn dyfarnu:
- (1) Y dadleuon a roddwyd gerbron gan y person perthnasol.
  - (2) Yr ymateb i unrhyw ymgynghoriad â pherson arall.
  - (3) Unrhyw sylwadau a dderbyniwyd gan y person perthnasol i'r cyfryw ymgynghoriad o fewn y terfyn amser a nodir uchod.
  - (4) Casgliad rhagarweiniol mewn perthynas â'r cwestiwn a ddylid caniatáu neu wrthod cais y person perthnasol.
- 4.11 Dan Adran 57(4) y Mesur, mae dyletswydd hefyd ar y Comisiynydd i ymgynghori â'r person perthnasol wrth ddyfarnu ar y cais. Cyn dyfarnu ar y cais yn derfynol bydd y Comisiynydd yn ymgynghori â'r person perthnasol drwy ei hysbysu o'r casgliadau rhagarweiniol a gofyn am sylwadau o fewn 10 diwrnod gwaith. Bydd y Comisiynydd yn rhoi ystyriaeth i'r sylwadau hynny cyn dyfarnu'n derfynol ar y cais.

### **Cam 4: Dyfarnu ar y cais**

- 4.12 Yn dilyn asesu'r cais, ymgynghori a'r arolwg cyn dyfarnu bydd y Comisiynydd yn gwneud ei dyfarniad.
- 4.13 Cam olaf cais am ddyfarniad yw hysbysu'r person perthnasol o'r dyfarniad terfynol. Ceir manylion ynglŷn â'r canlyniadau posibl wrth i'r Comisiynydd ddyfarnu ar gais yn y bennod nesaf.
-

---

# 5

## Dyfarniad

- 5.1 Mae dau ganlyniad posibl wrth i'r Comisiynydd ddyfarnu ar gais. Fe all ddyfarnu:
- **bod** y gofyniad i gydymffurfio â'r safon, neu gydymffurfio â'r safon mewn modd penodol yn afresymol neu'n anghymesur; neu
  - **nad** yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon, neu gydymffurfio â'r safon mewn modd penodol yn afresymol neu'n anghymesur.
- 5.2 Os dyfarnir bod y gofyniad i gydymffurfio yn afresymol neu'n anghymesur, bydd y Comisiynydd yn gwneud un o'r canlynol:
- dirymu'r hysbysiad cydymffurfio;
  - dirymu'r hysbysiad cydymffurfio a rhoi hysbysiad cydymffurfio newydd yn unol â'r drefn a bennir yn y Mesur; neu
  - amrywio'r hysbysiad cydymffurfio presennol yn unol â'r drefn a bennir yn y Mesur.
- 5.3 Os bydd y Comisiynydd yn dyfarnu nad yw'r gofyniad i gydymffurfio yn afresymol neu'n anghymesur, bydd hawl y person perthnasol i apelio i'r Tribiwnlys yn dod i rym. Bydd y Comisiynydd yn rhoi gwybod i'r person perthnasol o'r hawl hwn wrth ei hysbysu o'r dyfarniad. Mae manylion pellach am yr hawl i apelio o dan yr adran '**Apelio i'r Dribiwnlys y Gymraeg**'.
-



---

# 6

## Apelio i Dribiwnlys y Gymraeg

- 6.1 Mae'r Tribiwnlys yn gorff cyfreithiol annibynnol sydd â'r hawl i gadarnhau, amrywio neu ddileu dyfarniad y Comisiynydd. Bydd hawl person perthnasol i apelio i'r Tribiwnlys mewn perthynas â'i (d)dyletswydd dyfodol/presennol yn dod i rym unwaith y bydd y Comisiynydd wedi dyfarnu **nad** yw'r gofyniad i gydymffurfio ag ef yn afresymol neu'n anghymesur.
  - 6.2 Rhaid i'r person perthnasol apelio i'r Tribiwnlys o fewn y cyfnod o **28 diwrnod** gan ddechrau ar y diwrnod y cafodd ei hysbysu gan y Comisiynydd o'r dyfarniad. Fodd bynnag, gall y Tribiwnlys ganiatáu i apêl gael ei wneud ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw os bodlonir y Tribiwnlys bod rheswm da, drwy gais ysgrifenedig y person perthnasol, dros y methiant neu'r oedi i apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw.
  - 6.3 Mae apeliadau i'r Tribiwnlys yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys. Gellir cael rhagor o wybodaeth ynghylch y rheolau hynny ac ynglŷn â sut i apelio ar wefan y Tribiwnlys, neu drwy gysylltu â'r Tribiwnlys yn uniongyrchol.
  - 6.4 Noder hefyd bod modd i'r Comisiynydd neu i'r person perthnasol, gyda chaniatâd y Tribiwnlys neu'r Uchel Lys, apelio i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol sy'n deillio o ddyfarniad y Tribiwnlys.
  - 6.5 Os yw'r Uchel Lys yn dyfarnu bod y Tribiwnlys wedi gwneud camgymeriad ar bwynt cyfreithiol fe all osod penderfyniad y Tribiwnlys o'r naill du ac unai anfon yr achos yn ôl i'r Tribiwnlys neu ail-wneud y penderfyniad.
  - 6.6 Noder bod rhaid i gais am ganiatâd i apelio yn erbyn dyfarniad y Tribiwnlys gael ei wneud i'r Tribiwnlys neu i'r Uchel Lys o fewn cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau ar y diwrnod yr hysbysodd y Tribiwnlys y Comisiynydd/person perthnasol o'i ddyfarniad. Mae apeliadau i'r Uchel Lys hefyd yn ddarostyngedig i Reolau'r Tribiwnlys.
-

---

# 7

## Gohirio gosod dyletswydd dyfodol

- 7.1 Pan fydd person perthnasol yn herio dyletswydd dyfodol drwy wneud cais am ddyfarniad i'r Comisiynydd, ni fydd y gofyniad i'r person perthnasol gydymffurfio â'r dyletswydd hwnnw yn gymwys hyd nes bydd y Comisiynydd wedi dyfarnu ar y cais hwnnw a hyd nes bod hawliau y person perthnasol i apelio wedi eu disbyddu.
- 7.2 Ystyrir bod hawliau person perthnasol i apelio wedi eu disbyddu os:
- yw'r cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer cyflwyno apêl o dan adran 58(3) y Mesur wedi mynd heibio a'r person perthnasol heb gyflwyno apêl; neu
  - oes apêl wedi'i wneud o dan adran 58 y Mesur ac wedi dyfarnu unai na ellir gwneud apêl bellach neu na ellir gwneud apêl bellach heb ganiatâd y Tribiwnlys neu ganiatâd llys.
- 7.3 Unwaith y bydd y Comisiynydd wedi dyfarnu ar gais ac y bydd hawliau'r person perthnasol i apelio wedi eu disbyddu, bydd y ddyletswydd yn gymwys ac yn dod i rym a bydd modd i'r Comisiynydd ddefnyddio'i bwerau i orfodi'r person perthnasol i gydymffurfio â'r ddyletswydd yn unol â Rhan 5 y Mesur. Mae Polisi Gorfodi Comisiynydd y Gymraeg yn manylu ar yr agwedd honno.
-

---

# 8

## Cysylltu â ni

- 8.1 Os nad yw'r person perthnasol yn fodlon â'r modd y mae'r Comisiynydd wedi delio â'i gais, gellir cwyno wrth y Comisiynydd drwy ddilyn y weithdrefn gwynion arferol. Mae manylion pellach ar gael ar y **wefan**.
- 8.2 Hefyd, gellir cael rhagor o wybodaeth am gynnwys y weithdrefn hon drwy gysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg ar y manylion cyswllt canlynol:

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221

[post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)

---

---

# 9

## Ffurflenni cais am ddyfarniad

- 9.1 Mae dwy ffurflen gais am ddyfarniad ar gael: un ar gyfer herio dyletswyddau dyfodol ac un ar gyfer herio dyletswyddau presennol. Dim ond trwy gwblhau a dychwelyd y ffurflenni hyn y gall person perthnasol wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn iddo ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon(au) neu gydymffurfio â safon(au) mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio.
  - 9.2 Mae copïau caled o'r weithdrefn a'r ffurflenni ar gael yn swyddfa'r Comisiynydd a chopïau electroneg ar gael i'w lawr lwytho ar wefan y Comisiynydd.
  - 9.3 Pwysleisir mai mater i'r sefydliad (person perthnasol) sydd yn gwneud y cais am ddyfarniad yw dangos bod y gofyniad i gydymffurfio â safon(au), neu gydymffurfio â safon(au) mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur.
-



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner